

Cofnodion Pwyllgor Cyllid 20/1/2020

Preseanol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd). Lis Puw (Clerc)

1. Adolygwyd:

- a. Rheolau Ariannol Cyngor Cymuned Llanygerw
- b. Asesiad o Risgau Ariannol Cyngor Cymuned Llanygerw; tynnwyd sylw at brinder gofod ar gyfer claddu yn y fynwent. Cytunwyd i holi am addasrwydd y darn isaf o'r fynwent.
- c. Polisi Yswiriant – roedd bodlonrwydd gydag amodau'r polisi.

2. Archwiliad Mewnol 2018-19:

- a. Adolygwyd y broses archwilio fewnol 2018-19 a'i gael yn foddhaol iawn.
- b. Ystyriwyd Adroddiad yr Archwilwyr Allanol 2018-19 (BDO) a'i gael yn foddhaol iawn.
- c. Cytunwyd i benodi Luned Fôn fel Archwilydd Mewnol ar gyfer 2019-20.
- d. Cytunwyd i anfon Llythyr Ymrwymiad at yr Archwilydd Mewnol 2019-20.

3. Atgoffwyd y Cyngorwyr o anghenion Archwiliad Allanol 2019-20, sef trefniadau gwneud taliadau.

4. Ystyriwyd goblygiadau Taliadau i Gynghorwyr a chytunwyd i gynnwys hwn yn y Gyllideb.

5. Adolygwyd Cyflogau: cyn unrhyw drafodaeth, mynegodd y Clerc nad oedd yn dymuno i'r Cyngor godi'r cyflog.

6. Y sefyllfa ariannol:

- a. Preseanol: rhannwyd taflen Derbyniadau a Thaliadau am y flwyddyn hyd at y dyddiad hwn i bob Cynghorydd. Roedd y daflen yn cynnwys rhag-amcan o'r hyn y bwriedir ei wario erbyn diwedd mis Mawrth. Roedd yr wybodaeth hon yn galluogi'r Cynghorwyr i gymharu'r gwariant yn erbyn yr hyn a osodwyd yn y Gyllideb. Y prif wahaniaeth oedd y penderfyniad yn ystod y flwyddyn i ofyn am drydydd toriad o'r fynwent (+£500); hefyd, ysgrifennodd pob un o'r Cynghorwyr at y Clerc yn dweud eu bod yn dymuno i'w lwfans fynd i goffrau'r Cyngor er budd y gymuned leol (-£1050).
- b. Cytunwyd i wneud taliadau lonawr sef

- i. HG Web Design (Gwasanaeth am 5 mlynedd; gwefan am 10 mlynedd) £150
- ii. Swyddfa Archwilio Cymru £182.60
- iii. Partneriaeth Penllyn (mantolen wedi cyrraedd) £136.50
- iv. Community Heartbeat (2 pad) £104.40
- v. Cyfraniad at gynnal Swyddfa £230

Yn ystod y cyfarfod derbyniwyd rhodd o £104.40 gan Bwyllgor y Neuadd, sef arian a gasglwyd gan wersyllwyr maes carafanau Pantronnen ar gyfer cynnal y di-ffibs

- c. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 21
- d. Gosodwyd lefel y praesept 2020-21 yn £4,000 (yr un fath a blynyddoedd diweddar). Mae Llangywer yn cael ei gyfrif fel 137.30: Mae hyn yn golygu £29.13 ar gyfer cartref Band D.

Cytunwyd i ofyn am dorri'r gwair 3 gwaith yn ystod y tymor tyfu yn 2020.